Faint o'r gloch yw hi? / *What time is it?*

Themau - *Themes*

Darllen y cloc / *Reading the clock face*

Patrymau laith - *Language patterns*

Faint o'r gloch yw hi ? *What time is it?*

Mae hi'n dri o'r gloch *It is three o'clock*
Mae hi'n chwarter i dri *It is quarter to three*

Mae treiglad meddal ar ôl 'yn' ac 'i'.
There is a soft mutation after 'yn' and 'i'



Esiamplau ychwanegol - *Extra examples*

Dyn ni'n defnyddio 'hi' gyda amser, fel y tywydd.
We use 'hi' with the time, as we do with the weather.

Weithiau dyn ni ddim yn clywed yr 'hi' / *You will hear it shortened sometimes*

Mae'n dri o'r gloch - *It is 3 o'clock*

Dyn ni'n defnyddio'r rhifau traddodiadol ar gyfer yr amser gyda 11, 12
We use the traditional numbers with the time for 11,12,

Mae hi'n unarddeg *It is eleven o'clock*
Mae hi'n ddeuddeg *It is twelve o'clock*

Y dyfodol / *The future*
Dyn ni'n defnyddio 'bydd' yn lle 'mae' i drafod amser yn y dyfodol.
We use 'bydd' rather than 'mae' to discuss time in the future.

Bydd amser gyda fi *I will have time*

Tasgau - *Tasks*

Tasg sain / *Audio task*
Llenwch y grid.
Fill in the grid.

Pwnc/ Subject	**Amser / Time**
Dechrau	
Mathemateg	
Cymraeg	
Hanes	
Saesneg	
Cerddoriaeth	
Ffrangeg	

Tasg fideo / *Video task*
Llenwch y grid.
Fill in the grid.

Amser / Time	**Gweithgaredd / Activity**
	cael paned
	cyfarfod
	coffi - Nia
	nofio
	gwers gitâr
	disgo
	nôl Steffan ?

Sgript Sain – *Audio Script*

Nerys: Wyt ti'n dod nos Fercher Mam?

Mam: Nos Fercher?

Nerys: Ie, nos Fercher – i'r noson rieni!

Mam: Wel, ydw wrth gwrs.

Nerys: Mae'n dechrau am hanner awr wedi pedwar.

Mam: Pryd mae'r apwyntiad cynta?

Nerys: Mae'r apwyntiad cynta am ugain munud i bump gyda Mr Thomas yr athro Mathemateg

Mam: Reit, am ugain munud i bump dw i gyda'r athro Mathemateg, Mr Thomas. Rwyt ti'n hoffi mathemateg.

Nerys: O ydw. Wedyn am bum munud i bump dych chi'n gweld Mr Rees, yr athro Cymraeg.

Mam: O dw i'n nabod Mr Rees.

Nerys: Dych chi gyda fe am chwarter awr Mam. Wedyn dych chi'n aros am chwarter awr.

Mam: Aros am chwarter awr?

Nerys: Ie, am bum munud ar hugain wedi pump dych chi'n mynd i siarad â Miss Williams Hanes.

Mam: A ble dw i'n mynd wedyn?

Nerys: Wedyn am ddeg munud i chwech dych chi'n mynd i siarad â Mrs Huws Saesneg. Dw i ddim yn hoffi Saesneg.

Mam: Nerys!

Nerys: Am bum munud wedi chwech dych chi'n siarad â Miss Crotchet yr athrawes Gerddoriaeth.

Mam: Ha ha! Miss Crotchet wir! Jôc dda Nerys!

Nerys: Dim jôc Mam. Miss Crotchet yw enw fy athrawes Gerddoriaeth i.

Mam: Iawn, pum munud wedi chwech.

Nerys: Mae un apwyntiad arall gyda Mr Jones, Ffrangeg.

Mam: Am faint o'r gloch?

Nerys: Am ugain munud i saith. Wedyn dych chi'n gallu dod adre.

Mam: O diolch byth! A dod adre yn hapus gobeithio!

Nerys: Wrth gwrs mam!

Geirfa

rhieni – *parents*
apwyntiad – *appointment*
nabod – *(to) know a person*
wedyn – *afterwards*
cerddoriaeth – *music*
Ffrangeg – *French*

Sgript Fideo - *Video Script*

STEFFAN: Wyt ti'n mynd i'r dre heddiw?

MARGED: Ydw, dw i'n cael coffi gyda Nia am un ar ddeg. Pam?

STEFFAN: Ga i lifft gyda ti? Bydd cyfarfod gyda fi am hanner awr wedi deg yn y coleg.

MARGED: Dw i eisiau siopa yn gynta, felly dw i eisiau gadael y tŷ tua chwarter i ddeg. Iawn?

STEFFAN: Iawn, bydd amser gyda fi i ddarllen y papurau.

MARGED: Wyt ti'n gallu mynd â Sioned i nofio heno?

STEFFAN: Faint o'r gloch?

MARGED: Pump o'r gloch.

STEFFAN: Beth am Sion? Fydd gwers gitar gyda fe heno?

MARGED: Bydd, am chwarter wedi pump. Bydda i'n gallu mynd â fe a mynd â'r ddau i'r disgo yn yr ysgol erbyn deg munud i saith.

STEFFAN: Disgo yn yr ysgol? Heno?

MARGED: Ie, i godi arian at Blant Mewn Angen. Bydd yn gorffen am hanner awr wedi wyth. Bydd gyda fi amser i fynd i weld mam yn yr ysbyty cyn nôl y plant.

STEFFAN: Felly, bydd pawb nôl yn y tŷ cyn naw o'r gloch.

MARGED: Gobeithio wir, mae'n ddiwrnod hir. Pam?

STEFFAN: Mae Aled a Gerallt eisiau i mi fynd i'r Llew Goch i'r cwis heno. Maen nhw'n codi arian at Blant mewn Angen.

MARGED: O ie.

STEFFAN: Ydy'n bosib i ti nôl fi…….. tua……. un ar ddeg…..

MARGED: Dy nôl di am un ar ddeg! Ar ôl diwrnod mor brysur! Ti'n jocan!

Geirfa

ga i? - *May I?*
cyfarfod - *meeting*
gadael - *to leave*
mynd â - *to take*
codi arian - *raise money*
dy nôl di? - *fetch you?*

Atebion - *Answers*

Tasg sain / *Audio task*

Pwnc / Subject	Amser / Time
Dechrau	hanner awr wedi pedwar (4:30)
Mathemateg	ugain munud i bump (4:40)
Cymraeg	pum munud i bump (4:55)
Hanes	pum munud ar hugain wedi pump (5:25)
Saesneg	deg munud i chwech (5:50)
Cerddoriaeth	pum munud wedi chwech (6:05)
Ffrangeg	ugain munud i saith (6:40)

Tasg fideo / *Video task*

Amser / Time	Gweithgaredd / Activity
08:40	cael paned
10:30	cyfarfod
11:00	coffi - Nia
17:00	nofio
17:15	gwers gitâr
18:50 – 20:30	disgo
23:00	nôl Steffan ?